
Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenwyr ifanc!

# Dod i adnabod

## Meleri Wyn James






### Crynodeb:

Nofel ddirgelwch gyda llinyn storïol gref yn llinach nofelau ditectif Agatha Christie gan enillydd Medal Ryddiaith Eisteddfod Genedlaethol 2023.

Mae Carys a Nav yn edrych ymlaen i dreulio amser yn byw a gweithio ar ynys Enlli. Mae'n gyfle i newid byd, i ailddechrau ac i Carys wella ar ôl cwymp gas oddi ar geffyl rasio sydd wedi effeithio ar ei chorff a'i meddwl. Mae'n swnio fel cyfle delfrydol ond o fewn dim maen nhw wedi eu caethiwo ar yr ynys, gan amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth. Ac wrth iddyn nhw geisio penderfynu beth i wneud nesaf maen nhw'n dod o hyd i gorff...

### Bywgraffiad

Cafodd Meleri ei magu yn Beulah ac Aber-porth. Fe raddiodd yn y Gymraeg o Goleg Prifysgol Aberystwyth ac astudiodd MA yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Mae'n ysgrifennu llyfrau i blant ac oedolion ers dros 25 mlynedd. Mae'n mwynhau rhedeg, reidio ceffylau, darllen a threulio amser gyda theulu a ffrindiau.

Fe enillodd Meleri Wyn James y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd yn 2023 am ei nofel *Hallt*. Ers hynny, mae hi wedi cael blwyddyn brysur yn hyrwyddo stori'r nofel am berthynas mam a'i merch sy'n niwroamrywiol, yn siarad ar S4C a Radio Cymru ac yn ymweld â chlybiau darllen a chymdeithasau llenyddol dros Gymru.

**Pryd ddest ti'n ymwybodol dy fod eisiau sgwennu, oedd unrhyw ffactorau arbennig wedi cael effaith?**
Ddechreuais i sgwennu straeon antur pan o'n i'n rhyw 7 oed ac fe wnes i drio cystadleuaeth sgwennu gyda chylchgrawn *Pony* pan o'n i'n 9 oed. Ro'n i wrth fy modd yn reidio ceffylau (ac yn dal i fod) ond doedd dim jodhpurs gen i. Fe enillias i bâr am sgwennu stori, peth cyffrous iawn ar y pryd. Dwi ddim yn meddwl bod sgwennu yn ddewis i mi. Mae yna straeon yn chwyrlio yn fy mhen o hyd. Rwy'n mwynhau sgwennu ac mae'r mwynhad yna o fod ym myd dychymyg ac o fireinio geiriau yn bwysig ofnadwy yn fy marn i.

Mae cystadlu wedi bod yn hwb i mi fel awdur. Fe wnes i gyhoeddi fy llyfr cyntaf ar ôl ennill Medal Lenyddiaeth yr Urdd yn 1991, sef *Mwydyn yn yr Afal* a chyhoeddi fy nofel gyntaf, *Catrin Jones yn Unig*, diolch i gystadleuaeth gan wasg Gomer. Mae yna awduron eraill sydd wedi fy annog i dros y blynyddoedd, gan gynnwys Dr John Rowlands, Menna Elfyn, Manon Rhys a Rhiannon Ifans a roddodd gic i mi gystadlu am Fedal Ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae gwasg y Lolfa wedi bod yn gefnogol tu hwnt ers blynyddoedd mawr ac rwy'n ddiolchgar iawn i deulu'r Lolfa.

**Beth yw dy hoff genres darllen, a pha lyfrau wyt ti'n darllen ar hyn o bryd?**
Yn fy ngwaith yn y Lolfa, rwy newydd ddarllen *Dynol Iawn*, sef casgliad o ysgrifau gan bobol sy'n byw gydag ADHD ac awtistiaeth, wedi ei golygu gan Non Parry. Mae'n gyfrol bwysig yn fy marn i. Fe es i ati i lunio'r nofel *Hallt* am berson ifanc niwro amrywiol am ei fod yn bwysig tu hwnt i glywed gwahanol leisiau yn Gymraeg. Yn Saesneg, dwi newydd ddarllen *Ultra-Processed People*. Fe fyddai'n rhedeg Hanner Marathon Caerdydd cyn bo hir. Rwy'n aelod o Glwb Athletau Aberystwyth ac mae bwyta'n iach a chadw'n heini yn bwysig i mi. Wrth fy ngwely ar hyn o bryd mae Kate Atkinson, *Shrines of Gaiety*, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Rhondda Cynon Taf 2024* a geid i Delhi, Jaipur ac Agra ble fyddai'n mynd ym mis Tachwedd.

**Pa brofiadau o lyfrgelloedd sydd wedi dylanwadu arnot yn ystod dy fywyd?**
Galla i gofio fan y llyfrgell deithiol yn parcio tu allan i'r tŷ ym mhentre Beulah a chyffro cael mynd i mewn i ddewis llyfr newydd i'w ddarllen. Dwi ddim yn amau i hynny drawsnewid fy mywyd i. Pan oedd fy mhlant innau yn fach fe fydden ni'n mynd i lyfrgell y dre yn Aberystwyth un pnawn yr wythnos i ddewis llyfr yr un ac i fwynhau'r awyrgylch – ymgolli ym myd y llyfrau lliwgar, gwrando ar stori a thynnu llun wrth y bwrdd bach.

**Rho ddyfyniad sydd wrth wraidd dy fywyd di ...**
Gwell trio a methu na pheidio trio o gwbl – felly, ewch amdani.